**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

**Mawrth 23ain 2026**

**Cyfarfod Hybrid (Aml-leoliad)**

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elwyn Edwards

**Y Cynghorwyr:**
Delyth Lloyd Griffiths, Elin Hywel, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Gareth Coj Parry, Edgar Owen, John Pughe Roberts a Gruffydd Williams

**Eraill a wahoddwyd:**

Aelodau etholedig a alwyd cais i bwyllgor: Cynghoyrdd Elin Walker Jones a'r Cynghorydd Huw Wyn Jones

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol - Swyddog Monitro), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Gwawr Hughes (Rheolwr Cynllunio), Elen Morris (Swyddog Cynllunio), Dafydd Jones (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Ymddiheuriadau:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes, Huw Rowlands a Gareth A Roberts.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | Mawrth 23ain 2026 |

---

**PWNC: Eitem 5.1 CAIS RHIF C26/0052/25/LL**
**14 Llys Castan Ffordd Y Parc, Parc Menai, Bangor, LL57 4FH**

**Ail gyflwyniad o gais i newid defnydd yr uned swyddfa B1 bresennol i ddefnydd cymysg sy'n cynnwys uned cleifion allanol feddygol (dosbarth defnydd D1) a gofod swyddfa (B1).**

---

**PENDERFYNIAD: CANIATÁU yn groes i'r argymhelliad**

**AMODAU:**

1. **5 mlynedd**
2. **Unol a'r cynlluniau**
3. **Pan ddaw'r defnydd a ganiateir drwy hyn i ben, rhaid adfer y defnydd yn ôl i ddefnydd B1,B2 neu B8**

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 8 |
| Yn erbyn | 4 |
| Atal | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | Mawrth 23ain 2026 |

**PWNC: Eitem 5.2 Cais Rhif C24/0705/35/LL**
**Cartref Preswyl Plas Newydd, Stryd Fawr, Criccieth, LL52 0RR**

**Dymchwel adeilad presennol ac ail ddatblygu'r safle ar gyfer 9 fflat (C3) byw'n annibynnol gyda gwasanaeth gofal ychwanegol i rai dros 55 100% fforddiadwy**

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Amgylchedd i wrthod y cais:**

1. **Ni ystyrir fod dyluniad y bwriad, yn nhermau gosodiad, graddfa a'r mas yn ychwanegu at wella cymeriad ac ymddangosiad ei gyd-destun safle nac yn integreiddio'n llawn oddi mewn i gyd-destun y stryd wedd gyfagos na'i leoliad amlwg yn y rhan yma o Cricieth. Mae'r bwriad felly yn groes i ofynion perthnasol polisïau PCYFF 2 a PCYFF 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn, 2017 ynghyd a rhan 2.6 o Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio sydd yn nodi na ddylai dylunio sy'n amhriodol yn ei gyd-destun, neu nad yw'n manteisio ar gyfleoedd i wella cymeriad, ansawdd a swyddogaeth ardal, gael ei dderbyn oherwydd bydd yn cael effaith niweidiol ar gymunedau sy'n bodoli'n barod.**

2. **Oherwydd graddfa, mas, lleoliad a rhai nodweddion i'w cynnwys ar y datblygiad arfaethedig, mi fyddai'n arwain at amharu ac effaith gormesol ar eiddo a'u cwrtil cyfochrog. Ystyrir felly y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol ar fwynderau trigolion eiddo lleol, yn groes i faen prawf 7 o Bolisi PCYFF 2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, 2017.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 12 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.